Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 18 MAI 2018, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, (Cadeirydd); Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Mr George Ashworth; Ms Anne Davies; Mr Richard John; Ms Gwerfyl Pierce Jones; Mr Ian MacEachern; Dr Hazel Davey; Ms Kath Williams; Yr Athro Reyer Zwiggelaar; Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu Undeb Myfyrwyr UMAber; a Mr Gwion Llwyd Williams, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Ms Rebecca Davies, Y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Mr Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Strategaeth Newid; Mr Mark Godsell; Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol; a Miss Anna Jones Darpar Lywydd UMCA.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr Keith Evans; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid; a Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus;

69. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

   Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:

   1. Anna Jones, Darpar-Lywydd UMCA, a oedd yn bresennol yn rhan o'r broses sefydlu. Bydd yn dechrau yn y swydd ar 01 Gorffennaf 2018; a

   2. Mark Godsell, Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, a oedd yn bresennol ar ran y Cyfarwyddwr Cyllid.

2. Cworwm

   Oherwydd nifer yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd oddi wrth Aelodau Annibynnol nid oedd cworwm i'r cyfarfod. Roedd Ysgrifennydd y Brifysgol felly wedi ymgynghori ymlaen llaw â'r Aelodau Annibynnol a byddai'n mynegi eu sylwadau, fel bo'n briodol, er mwyn sicrhau y gallai'r Cyngor gytuno'n ffurfiol ar unrhyw benderfyniadau angenrheidiol.

3. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Emrys Wynn Jones, cyn Gofrestrydd ac Ysgrifennydd y Brifysgol;

   2. Lisa Siân Jones, myfyriwr yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru;

   3. Non Lavaro, Rheolwr Datblygu Busnes yn Athrofa Busnes a'r Gyfraith;

4. Yr Athro Lyndon Rogers, a fu'n athro yn yr Adran Biocemeg ac yn nes ymlaen Sefydliad y Gwyddorau Biolegol.

4. Penodi Aelodau Annibynnol

Cytunodd y Pwyllgor Enwebiadau ar restr fer o ymgeiswyr, a byddai cyfarfodydd gyda'r unigolion hynny'n cael eu cynnal ar 24 Mai 2018. Hysbysir y Cyngor am ganlyniadau cam olaf y broses maes o law (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

5. Cynllun Strategol 2018-2023

Ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r cynllun arfaethedig yn y cyfarfod ar 23 Mawrth 2018, cafodd copïau papur o'r cyhoeddiad terfynol eu hargraffu. Dosbarthwyd copïau i aelodau'r Cyngor ar ddechrau'r cyfarfod hwn.

6. Sesiynau Gwybodaeth

Trefnwyd dwy sesiwn wybodaeth i aelodau'r Cyngor cyn y cyfarfod ffurfiol: un ynglŷn ag ansawdd academaidd, ac un ar Brosiect yr Hen Goleg. Byddai copïau fideo o'r sesiynau anffurfiol ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu bod yno yn y bore (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

7. Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion, a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru

1. Ar 19 Ebrill 2018 bu Cadeirydd y Cyngor mewn cyfarfod o Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion. Yn ystod y cyfarfod llawn, cafodd Cod Taliadau Cydnabyddiaeth ei drafod, a byddai fersiwn ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi maes o law.

2. Bu Cadeirydd y Cyngor hefyd mewn cyfarfod o Gadeiryddion Prifysgolion Cymru gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar 10 Mai 2018, ac roedd wedi annog gweithio ar y cyd o fewn y sector er mwyn deall yn well beth yw gobeithion myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, ac apêl sefydliadau addysg uwch y tu allan i Gymru.

8. Radio 4, y BBC

Ar 17 Mai 2018, roedd y BBC wedi darlledu rhannau o raglen Radio 4, 'Today', yn fyw o Brifysgol Aberystwyth. Cytunai'r aelodau i hyn fod yn fanteisiol iawn i'r sefydliad, a chafwyd adborth cadarnhaol trwy'r cyfryngau cymdeithasol o bob rhan o'r byd. Diolchwyd i bawb a fu'n ymwneud â'r trefniadau am eu cyfraniad i'r darllediad llwyddiannus hwn.

70. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion eraill i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

71. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2018 (COU1718-092).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar gywiro pwynt 67.3 fel hyn: "Mr Richard John; nododd bod un o'r Dirprwy Is-Gangellorion yn Dad Bedydd i un o blant" (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

72. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1718-093).

NODWYD

1. Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid (cofnod 53)

   Roedd y broses i gaffael Adnodd Credyd Cylchdroawl yn symud yn ei blaen, a byddai argymhelliad ynglŷn â hyn yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Cyngor (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid).

2. Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019–20 (cofnod 55)

   NODWYD

   Cyflwynwyd cynllun Ffioedd a Mynediad arfaethedig y Brifysgol am 2019–20 i'r Cyngor Cyllido erbyn y dyddiad cau a nodwyd. Ers hynny, derbyniwyd ychydig o fân adborth gan CCAUC, a byddai'r diwygiadau y gofynnwyd amdanynt yn cael eu drafftio a'u rhannu â Chadeirydd y Cyngor i gytuno arnynt ar ran y corff llywodraethu cyn y dyddiad cau i ailgyflwyno, sef 01 Mehefin 2018 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

3. Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (cofnod 58)

   NODWYD

   Ar 01 Mai 2018, ystyriodd y Weithrediaeth gynllun gweithredu manwl a dogfen olrhain yn nodi cynnydd tuag at gydymffurfio â'r Rheoliadau newydd, ac wedi hynny cawsant eu rhannu â Chadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Roedd y Brifysgol yn gwneud cynnydd da o ran cydymffurfio o 25 Mai 2018.

4. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

73. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

74. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1718-094).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnwys tair adran allweddol : adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad manwl ar ddenu a chofrestru myfyrwyr, a ffactorau allanol pwysig; a chrynodeb o gyfathrebiadau diweddar.

2. Yn dilyn cael cadarnhad bod Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a'r Gwyddorau Biolegol wedi ailymrwymo i ddatblygiad y Campws Arloesi a Menter, roedd Cytundeb y Cyfranddalwyr i sefydlu'n ffurfiol y cwmni menter ar y cyd, AIEC Cyf, yn cael ei lofnodi gan y ddwy ochr. Roedd trafodaethau â'r dewis gontractwyr hefyd yn tynnu at eu terfyn, fel y gallai'r gwaith adeiladu ddechrau erbyn 02 Gorffennaf 2018.

3. Daeth y gweithredu diwydiannol gan aelodau Undeb y Prifysgolion a Cholegau ynglŷn â newidiadau a gynigiwyd i gynllun pensiynau'r USS, i ben. Er mwyn sicrhau na fyddai'r myfyrwyr dan anfantais o ganlyniad i'r gweithredu diwydiannol, roedd y Brifysgol naill ai'n gwneud addasiadau i asesiadau - gan gynnwys rhai yn arwain at achrediad proffesiynol - i'w seilio ar yr hyn a gafodd ei ddysgu, neu'n gwneud lwfans priodol yn y gweithdrefnau marcio a safoni.

4. Yng ngoleuni'r cytundeb rhwng Universities UN a'r UCU ynglŷn ag adolygiad o'r cynllun USS, penderfynodd Ymddiriedolwyr y cynllun weithredu cymal 76.4, a fyddai'n gorfodi costau uwch o lawer ar sefydliadau a staff o fis Ebrill 2019 er mwyn cynnal y cynllun a'r buddion cyfredol. Byddai swm synhwyrol yn cael ei bennu yn y gyllideb arfaethedig am 2018-19 ar gyfer hyn.

5. Roedd Cyfarwyddwr Marchnata a Derbyn Myfyrwyr newydd y Brifysgol wedi dechrau yn y swydd ar 23 Ebrill 2018, ac roedd yn gweithio ar strategaeth clirio ddiwygiedig i'r sefydliad. Cydnabu'r aelodau y byddai denu myfyrwyr yn parhau'n agwedd gystadleuol iawn yn y sector, gan arwain at dueddiadau newydd. Byddai hyn yn cael ei ystyried wrth baratoi fersiwn nesaf cofrestr risg y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

6. Ar 15 Mai 2018, cytunodd Gweithrediaeth y Brifysgol i gyflwyno cais sefydliadol i'r Cynllun Ardystio Arfordir Di-Blastig, i adeiladu ar gynnydd a wnaed eisoes gan dref Aberystwyth yn y cyswllt hwn. Byddai cais y Brifysgol yn cael ei arwain gan Grŵp Gweithredu PA Ddi-Blastig.

PENDERFYNWYD

7. Cymeradwyo penderfyniad y Weithrediaeth ynglŷn â'r Cynllun Ardystio Arfordir Di-Blastig.

75. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Datblygu UMAber (COU1718-095).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr (UMAber) ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Er y buddsoddwyd cyfalaf sylweddol yn adnoddau chwaraeon y Brifysgol ers rhai blynyddoedd, teimlai rhai o glybiau chwaraeon y Brifysgol na fu'r buddsoddi'n gyson, ac roeddent yn awr yn galw am wella'r adnoddau y maen nhw'n eu defnyddio hefyd. Er mwyn sicrhau ymdrin â hyn yn systematig, gwneir adolygiad o adnoddau chwaraeon y Brifysgol yn rhan o'r strategaeth ystadau sydd ar ddod (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

76. CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD (CGC)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid; Cyfarwyddwr Newid Strategol; y Cyfarwyddwr Cynllunio; a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1718-096).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r CGC; y ffactorau ariannol yn dylanwadu ar gyflawni o'i gymharu â thargedau; a'r dull lliniaru risg a sefydlwyd.

2. Ers cylchredeg yr adroddiad, rhagwelir y bydd yr arbedion a sicrhawyd yn y flwyddyn academaidd gyfredol yn uwch na'r targed. Byddai'r achosion busnes sydd yn awr ar waith hefyd yn sicrhau cyfran sylweddol o'r arbedion pellach a dargedir ar gyfer 2018-19.

3. Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 27 Ebrill 2018, awgrymodd yr Is-Ganghellor y dylid paratoi adroddiad cryno yn amlinellu'r cynnydd a wnaeth y Brifysgol ers mabwysiadu'r CGC. Roedd drafft yr adroddiad hwn ymhlith y papurau. Ar ôl ei gymeradwyo, byddai'n cael ei anfon at y Cyngor Cyllido.

4. Roedd adolygiad yn cael ei wneud am y cynnydd a wnaed o'i gymharu â'r argymhellion yn yr adroddiadau a gomisiynwyd gan 'The Knowledge Partnership' ynglŷn â chynnig academaidd y Brifysgol. Byddai'r adroddiad yn deillio o hyn yn cael ei gyflwyno yn ystod y cylch cyfarfodydd nesaf (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo'r adroddiad yn amlinellu cynnydd y Brifysgol ers mabwysiadau'r CGC, yn amodol ar gynnwys cyfeiriad at y gwaith sy'n cael ei wneud yn awr i ddatblygu strategaeth ystadau newydd i'w gymeradwyo yn yr hydref 2018 (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

77. CYFRIFON RHEOLI

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid; a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1718-097).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol hyd at 19 Ebrill 2018, yn ogystal â'r manylion diweddaraf am ddangosyddion perfformiad eraill sy'n gysylltiedig â chyllid.

78. AIL-DDYNODI CRONFEYDD GWADDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George (COU1718-098).

NODWYD

1. Yn dilyn trafodaethau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r grant £5m tuag at gostau prosiect, fe ailddechreuwyd ceisio caffael contractwr gan ddefnyddio'r fframwaith SEWSCAP. Byddai'r contractwr a ddewisir yn cael ei benodi erbyn canol mis Mehefin, er mwyn cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad targed, sef mis Medi 2019. Er bod cofnod penderfyniadau Llywodraeth Cymru'n nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi rhoi

cymeradwyaeth ffurfiol i'r grant £5m ar 16 Mai 2018, ni chafodd y Brifysgol hyd yn hyn ei hysbysu'n ffurfiol.

2. Roedd yr Adran Gyllid wedi ymgymryd â gwaith i nodi cronfeydd o waddoliadau y gellid eu rhyddhau tuag at gostau cyfalaf adnewyddu Pantycelyn. Cafodd gwaddoliadau gwerth £5.2m eu canfod lle nad oedd y cronfeydd yn nodi creu cronfa waddol barhaol (Grŵp 1). Y cyngor cyfreithiol a gafwyd oedd y gallai Cyngor y Brifysgol ddefnyddio'r cronfeydd hyn i ddibenion eraill heb fod angen cymeradwyaeth gan y Comisiwn Elusennau.

3. Roedd adolygiad o'r gronfa 'Degwm a Chabildylaidd', sydd â gwerth cyfalaf o £6.5m iddi, bron a'i gwblhau. Byddai'r Cyngor yn cael gwybod y canlyniad maes o law. Wrth aros am y canlyniad, neu pe byddai'n rhaid troi at ffynonellau eraill, gellid ariannu'r £1.8m sy'n weddill tuag at adnewyddu Pantycelyn o gronfa gwariant cyfalaf cyffredinol y Brifysgol.

4. Cafodd yr ail-ddynodi arfaethedig i'r cronfeydd gwaddol ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 27 Ebrill 2018, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cynnig.

5. Roedd aelodau'r Pwyllgor wedi gofyn hefyd am arolwg trwyadl o'r holl gronfeydd sy'n weddill yng Ngrŵp 1, yn ogystal â chronfeydd eraill mwy cyfyngedig, sydd wedi dyddio bellach ac na ellid yn hawdd eu cymhwyso'n unol â'u dibenion gwreiddiol, er mwyn cael gwell golwg ar gyfleoedd addas i ryddhau'r arian ohonynt tuag at brosiectau cyfalaf eraill addas. Yn y cyd-destun hwn, byddai polisi ynglŷn â chymhwyso gweddill cronfeydd Grŵp 1 yn cael ei ddatblygu i'w gymeradwyo gan y corff llywodraethu (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid).

PENDERFYNWYD

6. Cymeradwyo ail-ddyrannu cyfanswm o £5.2m o gronfeydd gwaddoliadau Grŵp 1 - a roddwyd i'r Brifysgol i ddibenion cyffredinol - tuag at adnewyddu Pantycelyn (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid).

79. COD YMARFER: CYFLOGAETH FOESEGOL MEWN CADWYNI CYFLENWI

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu) (COU1718-099).

NODWYD

1. Ar 23 Mehefin 2017, penderfynodd y Cyngor y dylai'r Brifysgol gofrestru ar God Ymarfer Llywodraeth Cymru ynghylch Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi. Rhoddai'r adroddiad fanylion am y cynnydd a wnaed gan y Brifysgol hyd yn hyn i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer, a oedd yn cynnwys talu cyflog byw y 'Living Wage Foundation' yn isafswm i staff.

2. Yn y dyfodol, byddai'r Brifysgol yn adrodd ynglŷn â chydymffurfio â'r Cod Ymarfer yn rhan o'r Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

80. AD-DREFNU ARFAETHEDIG PWYLLGORAU'R BRIFYSGOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-100).

NODWYD

1. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 23 Mawrth 2018 y dylai'r Weithrediaeth 'baratoi cynigion ar gyfer rhesymoli fframwaith yr is-bwyllgorau, yn unol â'r cyfeiriad strategol newydd', gwnaeth Ysgrifennydd y Brifysgol arolwg manwl o'r Cyngor a'i is-bwyllgorau; y Senedd a'r is-bwyllgorau academaidd; a Gweithrediaeth y Brifysgol. Wrth wneud hyn, roedd wedi gofyn barn cydweithwyr ar Weithrediaeth y Brifysgol. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r newidiadau a argymhellir i fframwaith pwyllgorau'r Brifysgol.

2. Yng nghyswllt y Cyngor, cynigiwyd rhesymoli sylweddol i fframwaith cyfredol yr is-bwyllgorau. Byddai'r arfer cyfredol o gael pwyllgorau sy'n adrodd ar y cyd i'r Cyngor a'r Senedd yn dod i ben, a byddai llwyth gwaith yr is-bwyllgorau'n cael ei ail-gydbwyso rhwng tri phrif bwyllgor: Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd; Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio; a Phwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r ad-drefnu arfaethedig ar bwyllgorau'r Brifysgol mewn egwyddor a gofyn am bapur pellach yng nghyfarfod nesaf y Cyngor yn nodi (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol):

    1. union gylch gorchwyl pob pwyllgor a fydd yn adrodd i'r corff llywodraethu yn y dyfodol, gan ystyried yr adborth a gafwyd gan aelodau'r Cyngor;

    2. aelodaeth arfaethedig y pwyllgorau newydd a/neu ddiwygiedig.

4. Y dylai'r Aelodau Annibynnol roi gwybod i Ysgrifennydd y Brifysgol erbyn 31 Mai 2018, os oedd ganddynt bwyllgor o'r Cyngor y byddent yn dymuno gwasanaethu arno yn y dyfodol, fel y gallai'r Pwyllgor Enwebiadau ystyried hynny yn ei gyfarfod ar 06 Mehefin 2018 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

81. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ynglŷn â'r canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1718-101);

NODWYD

2. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

82. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1718-102):

1. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (27 Ebrill 2018);

2. Y Senedd (18 Ebrill 2018);

3. Pwyllgor Strategaeth y Gymraeg (09 Chwefror 2018).

NODWYD

4. Strategaeth y Gymraeg (09 Chwefror 2018)

1. Daeth y Safonau Iaith y bydd y Brifysgol yn gorfod cydymffurfio â hwy i rym ar 01 Ebrill 2018.

PENDERFYNWYD

2. Anfon hysbysiad priodol i staff yn rhoi gwybod iddynt am ofynion y Safonau Iaith; ac fe fyddai cyfleoedd i ddarparu hyfforddiant pellach i staff ynghylch cydymffurfio â'r Safonau yn cael eu nodi (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol)).

5. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

83. UNRHYW FATER ARALL

1. Ffarwelio

Byddai Gwion Llwyd Williams yn dod i ben ei gyfnod yn Llywydd UMCA ar 30 Mehefin 2018. Hwn felly fu ei gyfarfod olaf o'r Cyngor. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad i'r corff llywodraethu a'r Brifysgol dros y flwyddyn ddiwethaf, a dymunwyd yn dda iddo.